GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion - Therapi Pigiadau

# Yr Adran Trin Traed ac Orthoteg

---

Mae'r Triniwr Traed, a'ch asesodd, wedi trafod defnyddio pigiad corticosteroid fel rhan o'ch cynllun rheoli. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y driniaeth hon.

**Beth yw Corticosteroidau?**

Yn ei hanfod, mae Corticosteroid yn wrth-chwydd cryf iawn a all liniaru chwyddo, anystwythder a phoen, gan eich galluogi i ddechrau adsefydlu'n gynt, cael llai o sesiynau triniaeth a dychwelyd i weithgareddau arferol yn gyflymach.

Caiff y pigiad ei roi'n lleol, felly bydd yr effeithiau ar eich symptomau nid yn unig yn gryfach ond byddant yn gyflymach na gyda meddyginiaeth trwy’r geg. Mewn rhai achosion, bydd y pigiad yn cael ei lywio drwy ddefnyddio Uwchsain.

**Beth yw Anesthetig Lleol?**

Defnyddir y math hwn o feddyginiaeth i fferru ardal am gyfnod byr. Gall y cyffuriau gael eu cymysgu â Chorticosteroidau neu eu defnyddio'n annibynnol er mwyn cynorthwyo'r clinigwr i wneud diagnosis o gyflwr penodol.

**NODWCH:** Os cyfunir eich pigiad ag Anesthetig lleol, ni ddylech yrru am 2-3 awr ar ôl iddo gael ei roi i chi. Os gwnewch hynny, mae'n bosibl y bydd eich yswiriant yn ddi-rym.

**Faint o bigiadau fydd eu hangen arnaf?**

Mae hyn i gyd yn dibynnu ar eich cyflwr meddygol. Mae rhai cyflyrau'n gofyn am un yn unig ond gall fod angen cyfres o bigiadau ar rai eraill. Bydd y Triniwr Traed sy'n rhoi'r pigiad i chi yn gallu eich cynghori ynglŷn â'ch sefyllfa unigol.

## Beth ddylwn i wneud ar ôl cael y pigiad?

Rhaid i chi orffwys y cymal poenus neu'r feinwe feddal am 2 ddiwrnod ar ôl y pigiad.  Mae hyn yn golygu y gallwch symud o gwmpas **ond peidiwch â'i gorwneud hi**.

Mae hyn yn rhoi cyfle i elfen wrth-chwydd y cyffur i weithio, i aros yn ei le a hefyd er mwyn atal rhagor o anafiadau.  Os ydych yn parhau i or-ddefnyddio eich cymal neu feinwe feddal o fewn y cyfnod hwn, bydd yn cael effaith andwyol a gallai wneud y pigiad yn llai effeithiol.

## A oes sgîl-effeithiau yn deillio o'r driniaeth hon?

**Haint** - fel gydag unrhyw dechneg archolli, mae perygl o haint bob amser.  Mae'r posibilrwydd y gallai hyn ddigwydd yn isel iawn.

**Poen Ôl-Bigiad / Fflamychiad Ôl-Bigiad** - efallai y byddwch yn profi 1-2 diwrnod o anghysur mwy ar ôl y pigiad, ond mae hyn yn rhywbeth arferol.  Mewn rhai achosion gall hyn fod yn fflamychiad steroidau gyda chychwyn poen 1-2 diwrnod ar ôl y pigiad sy'n para am oddeutu 3 diwrnod.  Os ydych yn pryderu, cysylltwch â'r Adran Trin Traed am gyngor.

**Adwaith Alergaidd - Anaffylacsis** - er yn eithriadol o brin, gallwch brofi adwaith alergaidd i'r feddyginiaeth a ddefnyddir yn y pigiad.  Mae hyn wedi'i drafod yn fanwl yn eich sesiwn cyn-asesiad.

**Afliwio yn y Croen** – Gall mân afliwio ar y croen o gwmpas lleoliad y pigiad ddigwydd.  Mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl â chroen mwy tywyll a chyda phigiadau arwynebol.

**Atroffi Braster – Mae hyn yn ymddangos fel pant yn y croen sydd yn aml yn adfer ei hun ar ôl sawl mis.**

## Sgil effeithiau dros dro eraill y gellir eu nodi:-

- Newid yn eich mislif arferol
- Gwres yn yr wyneb
- Acne yn y rhai sydd eisoes yn tueddu i'w ddioddef

**Beth os wy'n Ddiabetig?**

Nodwch y gall fod newid dros dro yn lefelau siwgr eich gwaed am ychydig o ddiwrnodau i wythnos ar ôl y pigiad. Os nad ydych yn siŵr sut i reoli hyn, ceisiwch gyngor gan eich meddyg teulu neu eich Nyrs Clefyd Siwgr arbenigol.

**Nodwch:** Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon eraill ynglŷn â'r pigiad, trafodwch y rhain â'r sawl sy'n trin eich traed.

**"This document is available in English /**
**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg".**